

Uchafbwyntiau Canolfan Ffilm Cymru 2024/25



Delwedd: Cardiff Animation Nights 2024-25

“Caru, caru ein sinema fach leol” Aelod o Gynulleidfa'r Magic Lantern

O Anora i Flow, yn ystod 2024 fe wylodd cynulleidfaoedd Cymru ffilmiau annibynnol y DU a'r ffilmiau rhyngwladol diweddaraf yn eu cymunedau lleol, am brisiau fforddiadwy. O ddangosiadau ymlaciedig a ffilmiau i'r teulu, i sinema eco a'r ffilmiau Cymreig diweddaraf, fe roddodd eich canolfannau chi ddigon o ddewis i gynulleidfaoedd. Fe agorwyd sgriniau newydd, gan gynnwys ailddatblygiad gwerth miliynau o bunnoedd Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen yn Neuadd y Dref Maesteg a 'Sgrin Emyr Ankst' newydd Cellb a agorwyd er cof am yr arloeswr cerddoriaeth a sinema, Emyr Glyn Williams. Dewch i ni edrych yn ôl ar fegis rhai o'r pethau a ddigwyddodd yn ystod 2024/25.

Aelodau

3

Cyllid Arddangos Ffilmiau

4

Ffilmiau

5

Gwnaethpwyd yng Nghymru

7

Sbotolau ar Aelodau

8

Cefnogaeth i Aelodau

10



Aelodau



297
o arddangoswyr
Cymreig



201
o aelodau*



24 aelod
newydd

gan gynnwys Neuadd
Gymunedol Luxor
Llanfairfechan, Theatr
Derek Williams a Sheba
Soul Ensemble. Croeso!



Roedd 19 aelod
Canolfan Ffilm
Cymru (CFfC) allan o
21 yn 'fodlon iawn'
gyda chefnogaeth
CFfC (1 yn fodlon)

“Roedd y gefnogaeth gan CFfC yn hanfodol er mwyn rhoi'r rhyddid i'n pobl ifanc sy'n gwneud penderfyniadau arbrofi a chymryd risgiau.”

- Canolfan a
Ariennir

Sinema Magic Lantern, Tywyn

Roedd 'Film Chat' yn brosiect newydd a ddaeth â 100 o ddangosiadau o 28 o ffilmiau annibynnol y DU, ffilmiau Cymreig, ffilmiau dogfen a ffilmiau iaith dramor i Dywyn, gan greu cyfleoedd i'r gymuned ddysgu mwy am ffilmiau a'r bobl sy'n eu creu.

Roedd y clwb ffilmiau (dim 'spoilers'!) yn cynnig sgyrsiau ar-lein gyda chapsiynau gyda thîm y Lantern, gan roi mewnwelediad i gynulleidfaoedd i'r ffilmiau diweddaraf.

Ymhlith digwyddiadau arbennig roedd Kneecap yng nghwmni'r rapiwr Cymreig Mr Phormula a Rave on for the Avon gyda sesiwn holi ac ateb am ddim / sgwrs glwb ffilmiau.

Gwylwch eu hastudiaeth achos.

“Dwi'n dwlu ar y ffaith bod y Magic Lantern yn dod â ffilmiau annibynnol blaengar i'r rhan hon o Gymru” – aelod o gynulleidfa'r Magic Lantern

Sbotolau

*Rhoddodd 16 o sinemâu a gwyliau cymunedol y gorau i weithgareddau dangos ffilmiau.

Cyllid Dangos Ffilmiau

Dyfarnwyd
oddeutu
£103,000 i 21 o
brosiectau

12 o Sinemâu
Llawr Amser /
Defnydd Cymysg /
Sinemâu
Cymunedol

Gweithgarwch
ar draws 25 o
leoliadau

7 Gŵyl a 1
sinema 'dros
dro'

15,401 wedi'i
ddyfarnu i
brosiectau 'Art
of Action'



- Abertoir International Horror Festival
- Awen Cultural Trust - Llynfi Valley Cinema
- Canolfan S4C Yr Egin
- Cardiff Animation Festival
- Cellb
- Dragon Theatre
- Gwyn Hall
- Hijinx Unity Film Festival

- Iris Prize LGBTQ+ Film Festival
- Kotatsu Japanese Animation Festival
- Llanoged Village Hall
- Luxor Cinema Llanfairfechan
- Magic Lantern Cinema
- Memo Arts Centre, Barry
- Mencap Môn
- Neuadd Dwyfor
- Phantasmagoria Horror Festival

- Sheba Soul
- Snowcat Cinema
- Swansea University (Taliesin Arts Centre)
- Theatr Gwaun
- TAPE Community Music and Film
- Torch Theatre
- Watch-Africa CIC
- WOW Wales One World Film Festival

Ffilmiau

36,709 o dderbyniadau corfforol
(34,473 y llynedd)

1278 o dderbyniadau ar-lein
(1751 y llynedd)

467 o ffilmiau
(571 y llynedd)

Roedd 66% o'r ffilmiau a ddangoswyd yn ffilmiau Prydeinig annibynnol neu'n rhyngwladol
sydd yn ostyngiad o 79% o'r llynedd.

32% yn ddangosiadau hygyrch
(36% y llynedd)

Fe gwblhaodd 1% o'ch cynulleidfaoedd holiadur cynulleidfa BFI FAN. Dyma gipolwg o'r sampl

2%
yn 25 oed ac yn iau


11%
LHDTCRhA+

36%
yn F/fyddar ac/neu'n anabl

55% yn fenywaidd

4%
yn Ddu a Mwyafrif Byd-eang

7%
Dosbarth gweithiol





Delwedd: Torch Theatre

Torch Theatre

Ochr yn ochr â'u prif raglen sinema o ffilmiau poblogaidd a ffilmiau annibynnol, fe gynhaliodd y Torch dri thymor dathlu sinema rhwng Medi 2024 a Mawrth 2025. Roedd y tymhorau'n arddangos gwaith sy'n dathlu Mis Hanes Pobl Ddu (yn cydweithio gydag artistiaid du ac artistiaid o'r Mwyafrif Byd-eang), Mis Hanes LHDTCThA+ (gyda Pembrokeshire Pride) a Diwrnod Rhyngwladol Pobl gydag Anableddau (gyda Craidd).

Roedd y tymhorau hyn yn cynnwys sesiynau ymgynghori, yn ogystal â dangosiadau o ffilmiau annibynnol a wnaed gan ac sy'n cynnwys pobl sydd â phrofiad bywyd o fod yn aelod o'r Mwyafrif Byd-eang, y gymuned LHDTCThA+ a / neu o fyw gydag anabledd. Maent yn gobeithio cryfhau eu perthynas gyda chynulleidfaoedd lleol, gan adeiladu rhaglen groesawgar o sinema annibynnol mewn cydweithrediad â phartneriaid ledled Cymru.

Gwylwch eu hastudiaeth achos yma.


"Fe wyliais Foxy Brown a The Heroic Trio. Roedd yn beth gwych gallu gweld y ffilmiau cymharol brin yma ar y sgrin fawr. Menter wych i dynnu sylw at rôl menywod mewn ffilmiau gweithredol o bob cwr o'r byd!"



**Aelod o Gynulleidfa
Canolfan Gelfyddydau
Chapter**

Gwnaethpwyd yng Nghymru

Fe gefnogodd



Delwedd: Comrade Tambo's London Recruits © Barefoot Rascals. All Rights Reserved.

Sbotolau: Comrade Tambo's London Recruits

Fe wnaethom weithio gyda'r cwmni cynhyrchu Barefoot Rascals i gefnogi ffilm, a gafodd 'rhyddhad y bobl' hunan-ddosbarthedig ar Dachwedd 22, 2024 ledled Cymru a'r DU mewn partneriaeth â sefydliadau gweithredwyr cymunedol ac undebau llafur.

Fe wnaethom lansio cyfres o asedau gan gynnwys:

- Y cynghorydd benywaidd du gyntaf o Gymru a'r eiriolwr pwerus dros fenywod lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru, Gaynor Legal a'r gwneuthurwr ffilmiau dogfen arobryn, yr Athro Florence Ayisi, yn siarad am y ffilm a hanes apartheid yng Nghymru mewn podlediad sain, fideo holi ac ateb, a chlipiau cyfryngau cymdeithasol.
- Fe ysgrifennodd Maya Pillay – actor, awdur, actifydd a chyfarwyddwr prosiect llenyddol plant cynhwysol (Books from Herbie) Prydeinig/o Dde Affrica erthygl am themâu'r ffilm.
- Mae'r ffilm yn ymddangos yn ein catalog a'n hystafell rhagolwg ac mae pecyn cymorth yn darparu cyngor ac awgrymiadau i arddangoswyr.

"I really appreciate everything that you have done / are doing for Comrade Tambo's London Recruits. The solid support across socials, generating that great content last year and the relentless marketing and promotion has been amazing. Plus all the other stuff I don't know about in the background."

– Director Gordon Maine

Sbotolau ar Aelodau

Amrywiaeth a Chynhwysiant: Sheba Soul Ensemble

Cynhaliodd prosiect Fly Freedom! 2 ddigwyddiad agos a chynhwysol 'talwch beth allwch' yn Aberystwyth ac 1 ar-lein, i ddathlu menywod Du a mwyafrif byd-eang. Roedd y rhaglen yn cynnwys detholiad o ffilmiau a gyfarwyddwyd gan fenywod Du, yn ymwneud â'r thema rhyddid, megis Ruby Bridges gan Euzhan Palcy. Fe wnaethant adeiladu perthynas â Chanolfan y Celfyddydau Aberystwyth yn ystod arddangosfa gelf artistiaid mwyafrif byd-eang, gan gynnal dangosiad yn syth ar ôl y lansiad, ac yna gweithdy ysgrifennu creadigol. Roedd rhwng 60-84% o'r gynulleidfa a oedd yn bresennol yn Ddu / mwyafrif byd-eang ac fe wnaeth y sesiynau sbarduno trafodaeth ddofn ar bwnc hil a chydaddoldeb. Gwylwch eu hastudiaeth achos yma.

"Roedd y ffilm yn hynod ddiddorol a'r drafodaeth naill ochr a'r llall yn addysgiadol ac yn procio'r meddwl. Roedd yn ffordd foddhaus o dreulio ychydig oriau ar ddydd Sul. Hoffwn fod mwy o ddigwyddiadau o'r fath." – Aelod o Gynulleidfa Sheba Soul

Treftadaeth Sgrin: Oed Yr Addewid

Buom yn cydweithio ag Archif Sgrin a Sain Llyfrgell Genedlaethol Cymru i ryddhau sgan newydd o enillydd BAFTA, y ffilm Cymraeg ei hiaith o 2000, Oed yr Addewid, wedi'i chyfarwyddo gan Emlyn Williams. Mae'r ffilm yn cyd-fynd ag is-deitlau disgrifiadol Cymraeg a Saesneg am y tro cyntaf, yn ogystal â threlar newydd.

Fe greodd yr Archif becyn i gefnogi arddangoswyr gyda chynghor rhaglennu ac awgrymiadau i hyrwyddo cysylltiadau Cymreig y ffilm. Yma yn CFfC wnaethom hefyd gomisiynu ymateb creadigol i themâu'r ffilm gan yr awdur Diffwys Criafol a rhyddhau datganiad i'r wasg, gan sicrhau sylw ar y radio ac mewn print ar gyfer dangosiadau sydd i ddod. Darganfyddwch fwy ac archebwch y ffilm yma.

Cynulleidfaoedd Ifanc: Canolfan y Celfyddydau Taliesin (Prifysgol Abertawe)

Fe lansiodd Taliesin gynllun newydd 35 wythnos a arweinir gan y gymuned, ar gyfer pobl ifanc a theuluoedd yn Abertawe. Fe gyflwynodd 'Connecting Up project' Taliesin grŵp o raglenwyr ifanc i weithdai'r diwydiant creadigol, dosbarthiadau meistr, ffilmiau holl bwysig y ganolfan/wyl, yn ogystal â hyfforddiant rhaglennu a rheoli digwyddiadau – y cyfan wedi'i gynllunio i wneud y profiad sinema yn fwy croesawgar i bobl ifanc.

Gan weithio gyda Chydlynnydd Cynulleidfa ac Ymgysylltu Ifanc a phartneriaid y ddinas, gweithredodd y grŵp fel ffrind beirniadol ar gyfer gwaith ymgysylltu'r ganolfan ac fe ymgynghorodd y grŵp â phobl ifanc am ddyfodol y ganolfan. Dan eu harweiniad fe ddangoswyd ffilmiau fel Anora, Heretic, Nickel Boys, Queer ac roedd 30% o'r gynulleidfa dan 26 oed – bron i ddwbl eu cyfartaledd tymhorol.

"Pan oeddwn yn yr ysgol uwchradd ym Motwnnog cefais weld copi vhs o Oed Yr Addewid ar un o'r setiau teledu ar olwynion yno ac fe wnaeth argraff ddofn arnaf am wahanol resymau. Dyma weld ffilm sy'n dweud rhywbeth, gyda manifestio clir a pherfformiadau cryf a oedd nid yn unig yn Gymraeg ond hefyd yn Gymraeg Llŷn, y Gymraeg roeddwn i'n ei chlywed ac yn siarad, ac a oedd wedi'i wreiddio mewn ardaloedd a oedd mor gyfarwydd i mi. Rydw i wedi meddwl amdano sawl gwaith yn y ddau ddegawd ers hynny ac wedi treulio dros ddeng mlynedd yn chwilio am y darn piano eiconig sy'n rhan mor ganolog o'r trac sain. Diolch am y cyfle i'w weld eto."

– Aelod o'r Gynulleidfa yn Galeri Caernarfon



Delwedd: Cardiff Animation Nights 2024-25

Sbotolau: Hyrwyddwr Economaidd- gymdeithasol

Mae Hyrwyddwr Economaidd-gymdeithasol BFI FAN Linnea Pettersson wedi bod yn brysur yn paratoi taith ffilm fer ddiwedd 2025 yn dathlu gwneuthurwyr ffilmiau dosbarth gweithiol (mwy i ddod yn fuan), yn ogystal â chyfarfod ag aelodau BFI FAN ledled y DU i gefnogi ymgysylltu â chynulleidfaoedd dosbarth gweithiol a phobl ar incwm is.

Mae'r adnodd 'Lleihau Rhwystrau Economaidd-Gymdeithasol' yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd bob mis gyda gwybodaeth am docynnau, cyllid a mwy, gan gynnwys erthygl yn seiliedig ar adroddiad diweddar DCMS 'What Works'.


Fe arweiniodd TAPE Cerdd a Ffilm Cymunedol ail flwyddyn y prosiect Sinema Gymdogaeth mewn cydweithrediad wythnosol â'u Clwb Cyfryngau. Yn Llangefni (Ynys Môn), arweiniodd Mencap Môn dri dangosiad yn Oriel Môn wedi'u hanelu at y gymuned ag anableddau dysgu a'u gofalmwyr. Yn y Luxor Llanfairfechan, maent wedi adfer eu sinema gymunedol annibynnol ar ôl 60 mlynedd ac wedi rhedeg cyfres o bum ffilm. Maen nhw'n bwriadu ychwanegu ail sgrin yn 2025. Cynhaliodd TAPE gyfres o 17 o ffilmiau ym Mae Colwyn, gan gynnwys dangosiadau yng Ngŵyl Ffilm yr Arfordir.

Mae'r Clwb Cyfryngau sy'n cynnwys pobl ifanc o Goleg Pengwern, adnodd anghenion dysgu ychwanegol lleol, wedi dod yn hyderus wrth raglennu a chynnal dangosiadau. Mae'r Clwb Ffilm 'Cinema Paradiso' wedi cael ei lansio o ganlyniad, a fydd yn cynnal dangosiadau misol y tu hwnt i oes y prosiect, trwy garfan newydd o wirfoddolwyr lleol. Mae Neuadd Bentref Llangoed hefyd wedi dechrau dangosiadau, dan arweiniad grŵp newydd o wirfoddolwyr sydd â diddordeb arbennig mewn sinema gymunedol. Maent eisoes wedi bod i'r cwrs rhaglennu ICO yn Llundain ac yn cysylltu ag elusennau lleol a sefydliadau celfyddydau creadigol. Mae dangosiadau hefyd yn cael eu trafod ar safle ychwanegol ym Mhenmachno.

Sbotolau: Sinema yn y Gymdogaeth

“Mae'r rhaglen sbotolau, gyda chefnogaeth anhygoel gan TAPE a CFFC wedi rhoi'r sinema yn ôl i'r pentref!”

– Luxor Llanfairfechan



Cefnogi Aelodau

- 18 x bwrsariau
- Fe fuom yn rhwydweithio (o leiaf!) 337 o weithiau!
- 111 o ffilmiau wedi'u hychwanegu i'r ystafell rhagolwg
- 1 x digwyddiad hyfforddi Hub Helo
- 1 x diwrnod rhagddangos Ffilmiau Cymreig
- 4 x Film Forum – cyfarfodydd rhaglennu chwarterol
- 3 x fideo astudiaeth achos wedi'u cyhoeddi
- 27 adnodd i'r we wedi'u huwchlwytho, gan gynnwys Rhaglen Sgrin Gynaliadwy y BFI a'r Creative Evaluation Toolkit For Cinemas.



Sbotolau: Sgiliau

Fe fynychodd aelodau ddigwyddiadau ledled y DU o Ddiwrnodau Sgrinio ICO, i BFI FAN CON a chynhadledd sinema UKCA, yn ogystal â chymryd rhan mewn cyrsiau hyfforddi megis Rhaglennu a Hygyrchedd ar draws y bwrdd gyda'r ICO a phresenoldeb yng ngwyliau Sheffield Doc Fest a Gŵyl Ffilm Sydney. Daeth 25 aelod at ei gilydd hefyd ar gyfer Hub Helo, ein digwyddiad blynyddol gan gymheiriaid lle gwnaethom fynd i'r afael â sesiynau o groestoriad gydag Iris, i 'gadw'n cwl' i gynulleidfaoedd ifanc gyda Cellb.

Rhagor o Wybodaeth :
[Darganfyddwch ragor am ein holl brosiectau yma.](#)

Manylion cyswllt:



Hana Lewis

Pennaeth Canolfan Ffilm Cymru
02920 353 740
hana@filmhubwales.org



Lisa Nesbitt

Swyddog Cynorthwyo Aelodau
02920 311 067
lisa@filmhubwales.org



Jade Atkinson

Cydlynnydd Marchnata Aelodau
02920 311 057
jade@filmhubwales.org